

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN YSGOL LLANDDOGED, LLANDDOGED NOS LUN 21ain Mai , 2018.

PRESENNOL

Cyng. Eifion Williams (Cadeirydd), Cyng. Alun Morris, Cyng. Arwel Ll. Jones , Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Michael Rayner, Cyng. John Owen, Cyng Austin Roberts, Delyth Algieri (clerc).

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Hefin Martin

Cadarnhau'r Cofnodion

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 23ain, Ebrill , 2018.

Materion yn codi o'r cofnodion

YSWIRIANT Y CYNGOR

Cadarnhaodd y clerc fod taliad yswiriant y Cyngor wedi cael ei dalu i'r cwmni BHIB am y flwyddyn 2018/19 .

CYNLLUNIO

- 1. Cais 0/45118 - Tai Bach, Ffordd Maenan, Maenan LL26 0YN - Amrywiadau i amodau rhif 4,6,12 a 13 cais cynllunio 0/40124 (Addasiadau ac estyniadau i drawsnewid yr eiddo yn dy wyliau (Diwygiad i'r cynllun wedi ei gymeradwyo o dan god rhif 0/37982)

Trafodwyd y cais uchod a phasiwyd fod gan cyngor ddim gwrthwynebiad i'r cais yma.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL LLANRWST 2019

Y Clerc wedi derbyn gwybodaeth fod llythyr ar ei ffordd ar gyfer cais ariannol gan y Pwyllgor Apêl Llanddoged a Maenan.

EGIN WEN, LLANDDOGED

Y clerc i gysylltu gyda chontractwyr lleol am bris i atgyweirio'r wal ym maes parcio Gegin Wen.

PONT Y GARTH, MAENAN

Cafwyd diweddariad gan Cyng. Austin Roberts ar y gwaith atgyweirio Y Bont ym Mhont y Garth, Maenan. Cytunwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ledu rhyw faint o'r ffordd wrth y bont. Bydd arwydd ' Pont Gul o'ch Blaen' (Narrow Bridge Ahead) yn cael ei osod ar groesffordd Cae Llwyd.

CYLLID

Trafodwyd sefyllfa'r cyllid ar gyfer y flwyddyn 2018/19. Nodwyd fod dim cymhlethdod yn codi o'r sefyllfa gyllidol am y flwyddyn 2018/19.

GOHEBIAETH

1. GDPR - manylion am weithredu'r polisi newydd gyda 'Data Protection' y Cyngor.
2. BHIB – Cadarnhad fod y Cyngor wedi talu yswiriant am y flwyddyn 2018/19.

CYNNAL A CHADW

- 1) Pryder am gyflwr y ffordd Llanddoged, Adran Priffyrdd wedi 'patchio' ambell i dwll yn y ffordd.
Y ffordd yn dal yn anwastad mewn ambell le. Cais gan y Cyngor Cymuned i gael tarmacio y ffordd o Gae Brychiad i fyny at bentref Llanddoged.
- 2) Ffordd wrth Llidiart y Mynydd Llanddoged - dirywiad yn wyneb y ffordd.
- 3) Angen torri cloddiau o gwmpas ardal Llanddoged a Maenan.
- 4) Derbyniwyd gwybodaeth fod y blwch ffon wedi mynd o Groesffordd Tyrpeg.
- 5) Twll yn y ffordd wrth Fferm Pen y Bryn, Allt Goch, Llanddoged.